**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD 07-02(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 1 Mai |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.10pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, *Cadeirydd* | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Cynog Dafis | Canol a Gorllewin Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Carwyn Jones, *Gweinidog* | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig |
| Rory O'Sullivan | Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Mike Dunn | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Alan Starkey | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Tony Edwards | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Rosemary Thomas | Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Peter Mcallen | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Peter Samuel | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Gwyn Griffiths | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Amanda Jones | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Gareth Rowlands | Grwp Strategaeth y Sector Organig |

| | |
|---|---|
| Nic Lampkin | Cyfarwyddwr, Canolfan Organig Cymru |
| Wynfford James | Cyfarwyddiaeth Bwyd-amaeth yr Awdurdod Datblygu |
| Catrin Jones | Cyfarwyddiaeth Bwyd-amaeth yr Awdurdod Datblygu |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler i Bwyllgorau'r Cynulliad |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1. Gwnaethpwyd y datganiadau isod gyda golwg ar fudd:

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'i wraig yn bartneriaid mewn busnes ffermio a bod manylion llawnach i'w gweld yn y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau.

- Dywedodd Peter Rogers ei fod ef, ei wraig a'i fab yn bartneriaid mewn busnes ffermio a bod manylion llawnach i'w gweld yn y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau.

- Dywedodd Mick Bates ei fod yn aelod o sefydliadau amaethyddol amrywiol.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog: ARD 06-02 (p1)**

***TB mewn Gwartheg***

2.1 Cadarnhaodd y Gweinidog fod pwerau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n caniatáu iddo roi arian i'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol er mwyn ymgymryd â gweithgareddau ar wahân i'r rhai hynny y câi adnoddau ar eu cyfer gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Gallai hyn gynnwys rhoi hwb i'r rhaglen brofion TB er mwyn mynd i'r afael â'r profion na chawsant eu gwneud o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau. Nododd y Pwyllgor fod y Gweinidog yn aros am ganlyniad sylwadau a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn ddiweddar ynghylch adnoddau ychwanegol ar gyfer y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghymru.

2.2 Gan fod y cyfrifoldeb am reoli TB wedi ei ddirprwyo i'r Cynulliad, ac oherwydd nifer yr achosion o'r clwy, mynegodd yr Aelodau siom nad oedd rhaglen ymchwil wedi ei sefydlu yng Nghymru er mwyn ategu neu gyfrannu tuag at brofion Krebs. Ni fyddai sefydlu asesiad ar wahân yng Nghymru i wneud yr un gwaith â phrofion Krebs yn Lloegr yn ychwanegu at y wybodaeth wyddonol a fyddai ar gael a'r unig ganlyniad fyddai lladd moch daear.

2.3 Nododd yr Aelodau na fyddai dadansoddi moch daear a laddwyd mewn damweiniau ar y ffordd yn helpu i ganfod y cysylltiad rhwng TB mewn gwartheg ac mewn moch daear, sef amcan astudiaeth

Krebs.

2.4 Nododd y Pwyllgor y byddai defnyddio’r prawf interfferon gama yn helpu i gyflymu’r profion presennol ac, o ganlyniad, yn helpu i leihau nifer y profion sy’n aros i gael eu gwneud. Er hyn, dylai gael ei weld fel prawf sy’n ategu’r dulliau profi presennol, ac nid un sy’n cymryd eu lle.

2.5 Nid oedd unrhyw gyfyngiadau ar symud gwartheg rhwng ardaloedd a oedd yn rhydd o TB ar y pryd. Cyfrifoldeb ffermwyr unigol oedd sicrhau bod anifeiliaid a oedd yn cael eu symud o ardaloedd lle’r oedd TB wedi ei ddarganfod yn cael eu profi.

***Antur Cig Cymru***

2.6 Teimlai’r Gweinidog y dylai pencadlys y corff newydd gael ei leoli y tu allan i Gaerdydd. Antur Cig Cymru fyddai’n penderfynu ynghylch y lleoliad terfynol.

***Cyswllt Ffermio***

2.7 Yr oedd pryder o hyd ynghylch yr amser a gymerid i gwblhau’r broses adolygu a’r Cynllun Datblygu Busnes Fferm dilynol. Nododd y Pwyllgor y byddai’r bwriad i gynnig asesiad cychwynnol o hyfywedd busnes yn caniatáu i ffermwyr gael cyngor a grantiau cyfalaf yn gynt. Yr oedd yn hanfodol bod y cyngor a roddid i ffermwyr gan ymgynghorwyr yn glir ac yn gyson a bod deunydd a hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau hyn.

2.8 Cytunodd y Gweinidog i gynnwys yn ei adroddiad nesaf ei asesiad o’r posibilrwydd o ddefnyddio arian grant Haen 3 er mwyn ategu neu gyfnewid am grant prosesu a marchnata ar gyfer prosiectau mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd amcan 1.

***Coedwigaeth***

2.9 Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd:

- cynnwys cymunedau yn y gwaith o reoli a defnyddio fforestydd a choedlannau cyhoeddus, a oedd wedi eu lleoli yn aml yn agos at rai o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Gallai agwedd newydd tuag at ddatblygu adnoddau yn y sector coedwigaeth arwain at fanteision economaidd a helpu i adfywio cymunedau lleol;
- nodi marchnadoedd priodol eraill ar gyfer pren, fel ei ddefnyddio i godi adeiladau fferm. Cytunodd y Gweinidog i gynnwys yn ei adroddiad nesaf fanylion ynghylch y camau a gymerid drwy Gyswllt Ffermio er mwyn hyrwyddo defnyddio pren;
- agwedd gydgysylltiedig tuag at ddatblygu’r economi a choedwigaeth. Nodwyd bod Grwp Strategaeth Datblygu Coetiroedd a Biomas wedi ei sefydlu i’r perwyl hwn. Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru oedd yn gyfrifol am gydlynu prosiectau Amcan 1.

***Materion eraill***

2.10 Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch effaith camau bio-ddiogelwch arfaethedig, yn deillio o argyfwng clwy’r traed a’r genau, ar sioeau amaethyddol a gynhelid yn y dyfodol. Nodwyd y byddai adolygiad yn cael ei wneud ym Mai er mwyn ystyried llacio’r cyfyngiadau symud presennol.

2.11 Ailddatganodd y Gweinidog yr hyn a ddywedodd yn y cyfarfod blaenorol, sef ei fod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gofyn iddi geisio sicrhau bod yr iawndal amaeth-amgylcheddol yn cael ei dalu.

2.12 Cytunodd y Gweinidog i gynnwys gwybodaeth yn ei adroddiad nesaf yn nodi i ba raddau yr oedd cemegolion amaethyddol yn cael eu camddefnyddio ac yn peri niwed i fywyd gwyllt.

2.13 Nodwyd bod rhai ffermwyr wedi cyfeirio at oedi cyn derbyn ffurflenni IACS o swyddfa ranbarthol Caerfyrddin.

**Camau gweithredu**

Y Gweinidog i gynnwys yn ei adroddiad nesaf asesiad o’r posibilrwydd o ddefnyddio grant Haen 3 er mwyn ategu neu gyfnewid am grant prosesu a marchnata ar gyfer prosiectau mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd amcan 1 - **Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**.

Y Gweinidog i gynnwys gwybodaeth yn ei adroddiad nesaf yn nodi i ba raddau y mae cemegolion amaethyddol yn cael eu camddefnyddio ac yn peri niwed i fywyd gwyllt - **Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**.

Y Gweinidog i gynnwys manylion yn ei adroddiad nesaf ynghylch camau sy’n cael eu cymryd drwy Gyswllt Ffermio er mwyn hyrwyddo defnyddio pren - **Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio.**

**Eitem 3: Is-ddeddfwriaeth: ARD 07-02(p2) –** Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol drafft (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002

3.1 Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion isod yn ymwneud â threfniadaeth:

- yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i gael mwy o wybodaeth gan y Cadeirydd ynghylch archwilio Offerynnau Statudol mewn Pwyllgorau, ac yn fwyaf arbennig ynghylch y protocol ar gyfer cyflwyno gwelliannau. Cytunodd y Cadeirydd y byddai’r Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu protocol awgrymedig.
- pryder ynghylch defnyddio’r drefn weithredol ar gyfer hyn ac Offerynnau Statudol eraill. Eglurodd y Gweinidog fod y drefn weithredol yn cael ei defnyddio yn yr achos hwn gan fod gweinyddiaethau eraill y DU wedi sefydlu Gorchmynion cyfatebol a gallai mwy o oedi effeithio

ar y gweithdrefnau torri rheolau.

3.2 Codwyd y pwyntiau isod gyda golwg ar gynnwys y Gorchymyn:

- yr oedd angen mwy o eglurder ynghylch y termau a oedd yn y Gorchymyn, fel, ‘tir heb ei drin’ ac effaith ‘sylweddol’ ar yr amgylchedd. Os nad oedd modd cynnwys diffiniadau manylach yn y Gorchymyn, dylid darparu manylion mewn cyfarwyddyd dilynol;

  - dylid ystyried cynnwys apeliadau gan drydydd parti fel rhan o’r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer apeliadau yn y rheoliadau;

- dylid ystyried rôl y Cynulliad Cenedlaethol fel yr awdurdod cymwys gyda golwg ar weithredu’r rheoliadau. Awgrymwyd mai’r awdurdodau lleol, a oedd yn gyfrifol am y trefniadau cynllunio yn barod, fyddai yn y sefyllfa orau i ddangos arweiniad gyda golwg ar weithredu’r darpariaethau hyn. Dywedodd y Gweinidog fod yr arbenigedd angenrheidiol i’w gael yn y Cynulliad ond nid ym mhob awdurdod lleol.

**Cam gweithredu**

Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon cynigion at yr Aelodau gyda golwg ar brotocol ar gyfer delio gydag is-ddeddfwriaeth yn y Pwyllgor – **Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.**

**Eitem 4: Amlen genedlaethol y Premiwm Blynyddol Defaid yn 2003: ARD 07-02(p3)**

4.1 Nododd y Pwyllgor y byddai adnoddau’r amlen genedlaethol ar gyfer Cymru, gyda golwg ar Gynllun Premiwm Blynyddol Defaid 2002, yn cael eu dosbarthu i gynhyrchwyr fel taliad ychwanegol ar ben y premiwm cyfradd sefydlog. Pwrpas yr amlen genedlaethol oedd cynnig mwy o hyblygrwydd i’r aelod-wladwriaethau gyda golwg ar y gefnogaeth a roddid i’r sector defaid. Gobeithiai’r Comisiwn weld defnydd dyfeisgar o’r amlen fel rhan o symudiad tymor hir oddi wrth gymorth yn seiliedig ar gynhyrchu.

4.2 Gwnaethpwyd y pwyntiau isod:

- yr oedd yn bwysig sicrhau bod cyn lleied ag a oedd yn bosibl o fiwrocratiaeth yn gysylltiedig â gweinyddu’r darpariaethau newydd;
- dylid ystyried defnyddio’r amlen genedlaethol er mwyn cynorthwyo ffermwyr ifanc drwy roi blaenoriaeth iddynt hwy yng nghyswllt cwota a gedwid wrth gefn. Nodwyd y byddai hyn yn galw am gyfuno cronfeydd ar gyfer tir uchel a thir isel yng Nghymru;

- teimlai rhai o’r Aelodau y dylid ystyried ffermwyr bach wrth benderfynu pa ddewis oedd yr un mwyaf priodol, a theimlai eraill y dylid ei defnyddio ar gyfer ad-drefnu mewn modd mwy

creadigol a chyflawni amcanion ehangach y Cynulliad;
- cadarnhaodd y Gweinidog y gellid lleihau'r premiwm sylfaenol i fod ddwywaith gymaint â'r amlen genedlaethol. Byddai'r dewis hwn yn cael ei ystyried yng ngoleuni profiad yn 2003.

4.3 Cytunwyd y byddai ystyriaeth bellach o'r defnydd o amlen genedlaethol y Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid, ar ôl ymgynghori, yn cael ei rhoi ar agenda cyfarfod 17 Gorffennaf.

**Cam gweithredu**

Ystyriaeth bellach o'r defnydd o amlen genedlaethol y Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid, ar ôl ymgynghori, i'w rhoi ar agenda cyfarfod 17 Gorffennaf – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, Ysgrifenyddiaeth.**

**Eitem 5: Adolygiad polisi'r Pwyllgor o ffermio organig: ARD 06-02(p4)**

5.1 Amlinellodd Gareth Rowlands y prif bwyntiau a oedd ym mhapur Grwp Strategaeth Sector Organig y Bartneriaeth Bwyd-amaeth. Tynnodd sylw yn fwyaf arbennig at yr angen i ddiogelu'r Cynllun Ffermio Organig; cynyddu'r gallu i brosesu cynnyrch organig; cynyddu nifer y marchnadoedd ffermwyr; ac ehangu cylch gorchwyl Canolfan Organig Cymru.

5.2 Codwyd y pwyntiau isod yn y drafodaeth:

- porffidioldeb cymharol cynhyrchu organig a chynhyrchu confensiynol. Derbynnid yn gyffredinol bod mwy o elw i'w wneud â chynnyrch organig nag â bwydydd confensiynol. Fodd bynnag, yr oedd hyn yn aml yn adlewyrchiad o'r pwysau ar bris cynnyrch confensiynol ac o ganlyniad nid oedd yn dangos sefydlogrwydd marchnad tymor hir yn y sector organig. Yr oedd pwysau parhaus ar faint yr elw'n arwain at bryderon ynghylch hyfywedd economaidd y sector organig a chynaladwyedd y farchnad. Byddai taliadau cynhaliaeth ar gyfer cynhyrchwyr yn rhoi sylw i hyn ac yn cynnal y manteision y mae cynhyrchu organig yn eu cynnig o safbwynt yr amgylchedd ac o safbwynt iechyd. Er hyn, yr oedd gan yr Aelodau bryder ynghylch datblygu adran arall o fewn y diwydiant amaethyddol a oedd yn dibynnu ar gymorthdaliadau;
- nid oedd digon o dystiolaeth gadarn ar gael i awgrymu bod bwyta cynnyrch organig yn lles i bobl ac yn gwella'u hiechyd, er bod trwch cynyddol o dystiolaeth yn cysylltu ansawdd bwyd gydag iechyd. Yr oedd nifer o astudiaethau ymchwil yn cael eu gwneud ar hyn o bryd er mwyn sefydlu a oedd gwahaniaeth rhwng ansawdd cynnyrch organig a chynnyrch confensiynol;
- yr oedd angen eglurhad hefyd o fanteision amgylcheddol ffermio organig a'i ddefnydd fel cyfrwng amaeth-amgylcheddol. Dywedodd Nic Lampkin fod tystiolaeth glir yn awgrymu bod ffermio organig yn arwain at fanteision amgylcheddol er bod angen mwy o ymchwil i'r effaith ar dir uchel;
- yr oedd angen gwell cydlyniad rhwng cyflenwyr er mwyn rhoi sylw i'r bylchau presennol yn y gadwyn gyflenwi a chwrdd â'r galw. Awgrymwyd y dylid ystyried sefydlu un corff strategol i gydlynu'r gwaith o gyflenwi cynnyrch organig cartref. Nododd yr Aelodau fod cais am gymorth

gan Ganolfan Gydweithredol Cymru wedi ei wneud gyda golwg ar y mater hwn;

- yr oedd prinder gwybodaeth ynghylch y posibiliadau ar gyfer amnewid mewnforion a phryder bod y ffaith bod cymaint o gynnyrch organig yn cael ei fewnforio yn rhwystro datblygiad y sector organig yng Nghymru. Yr oedd y gyfradd gyfnewid ffafriol bresennol ynghyd â’r trefniadau a oedd yn bodoli yn aelod-wladwriaethau eraill yr UE gyda golwg ar gefnogaeth barhaus i’r sector organig yn golygu bod cynnyrch a oedd yn cael ei fewnforio yn dal i fod yn gystadleuol.
- dylai archfarchnadoedd chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo’r sector organig. Dylai adwerthwyr mawr gymryd camau pellach er mwyn cyflwyno gwybodaeth am gynnyrch organig i ddefnyddwyr. Awgrymwyd y dylid ystyried ymgyrch gyhoeddusrwydd gyda’r bwriad o gynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o fanteision posibl cynnyrch organig.
- yr oedd nifer y ffermwyr a oedd wedi troi’n organig yn is na’r disgwyl ar hyn o bryd, ac yr oedd hyn i’w briodoli, yn rhannol, i’r ffaith bod cynhyrchwyr wedi colli hyder yn y farchnad. Yr oedd yn hanfodol adfer hyder os oedd y sector i barhau i ddatblygu. Yr oedd gwell gwybodaeth am y farchnad yn holl bwysig yn y cyswllt hwn. Nodwyd nad oedd yr arian a oedd ar gael ar gyfer troi’n organig yn cyfyngu ar dwf y sector organig ar hyn o bryd;
- gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch safonau ardystiad organig. Ymdrinnid â’r term mewn rheoliadau yn y DU ac ym mhob cwr o’r UE. Yr oedd oddeutu 95% o’r safonau organig yn gyffredin yn yr UE drwyddi draw.

**Eitem 6: Blaenraglen Waith Strategol: ARD 07-02(p5)**

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor ei flaenraglen waith strategol ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mai 2003.

**Eitem 7: Adroddiad blynyddol i’r cyfarfod llawn: ARD 07-02(p6)**

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor ei adroddiad blynyddol i’r cyfarfod llawn ar gyfer 2001-02.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod blaenorol: ARD 06-02(min)**

8.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 17 Ebrill.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor - Mai 2002**